# CYNLLUN GRANT 2021-2022 Y CYNNIG GOFAL PLANT – DYFAIS MONITRO CARBON DEUOCSID ($CO_2$)

# CANLLAW I YMGEISWYR

## 1.0 Pwy sy'n gymwys i gyflwyno cais?

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, rhaid i'r lleoliad gofal plant fod:

- yn Rhondda Cynon Taf
- wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), neu yn achos lleoliad newydd, fod yn gallu darparu ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl;
- wedi cofrestru gyda'r Cyngor i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed;
- yn y broses o lenwi Cytundeb Darparwr Cynnig Gofal Plant RhCT ac y bydd yn cofrestru'r lleoliad gofal plant cyn gynted â phosibl;
- yn barod i brynu'r ddyfais monitro $CO_2$ a chael ad-daliad gan y Garfan Cynnig Gofal Plant unwaith y bydd derbynebau/anfonebau a chofnodion dosbarthu wedi'u cyflwyno fel tystiolaeth cyn **15 Mawrth 2022.**

## 2.0 Beth mae modd ei ariannu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid i ddarparwyr gofal plant brynu a gosod dyfeisiau monitro $CO_2$ yn eu lleoliadau i gefnogi eu mesurau diogelwch COVID-19.

Mae dyfeisiau monitro gwahanol ar gael ar gyfer ystafelloedd o wahanol faint a math. Dylai darparwyr geisio gwybodaeth a phenderfynu a yw dyfais monitro $CO_2$ yn addas ar gyfer eu lleoliad/amgylchedd a sawl dyfais fydd ei hangen.

Efallai bydd y dolenni cyswllt canlynol yn ddefnyddiol:

**Llywodraeth Cymru – Canllaw ar sut i ddefnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid er mwyn helpu i reoli lefelau awyru mewn lleoliadau addysg** – https://llyw.cymru/dyfeisiau-monitro-carbon-deuocsid-mewn-lleoliadau-addysg

**Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Awyru ac aerdymheru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19)** – https://www.hse.gov.uk/coronavirus/equipment-and-machinery/air-conditioning-and-ventilation/index.htm

## 3.0 Cyflwyno Cais

Rhaid llenwi ceisiadau yn electronig a'u hanfon mewn e-bost i:
GrantiauGofalPlantRhCT@rctcbc.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 11 Chwefror 2022**.

## 4.0 Proses Dalu

Bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad BACS i'r cyfrif banc busnes sydd wedi'i nodi yn y cais. Bydd yr arian yn cael ei roi dim ond ar ôl derbyn ffurflen hawlio grant wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd. Rhaid i'r ffurflen hawlio grant yma gynnwys:

- Anfonebau gwreiddiol wedi'u heitemeiddio gan y cyflenwr/cyflenwyr, i gynnwys dim ond yr offer hwnnw a oedd wedi cael ei gymeradwyo yn benodol yn y Ffurflen Gais am Grant Dyfais Monitro $CO_2$

Anfonwch e-bost i GrantiauGofalPlantRhCT@rhondda-cynon-taf.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.